



Swyddog Marchnata a Recriwtio

Graddfa/ Cyflog G05 24-27 £35,412- £38,220

**Lleoliad yn Swyddfeydd y Sir, Y Fflint, a gweithio
hybrid**

**Gweithwyr Cymdeithasol Lefel 3 (Wedi symud drwyddi trwy
CPEL) Gradd 06 £39,152 - £41,771**

Swyddog Recriwtio Maethu Cymru Sir y Fflint

Os ydych yn dymuno chwarae rhan allweddol yn gwella bywydau plant lleol a phobl ifanc yn Sir y Fflint drwy ddod o hyd i fwy o ofalwyr maeth i ddarparu cartrefi diogel a chariadus i blant yn ein gofal, gallai hon fod y swydd i chi.

Maethu Cymru Sir y Fflint yw eich gwasanaeth maethu Awdurdod Lleol. Rydym yn rhan o Maethu Cymru, y rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu nid er elw 22 Awdurdod Lleol Cymru, sy'n cydweithio i greu gwell dyfodol i blant yng Nghymru. Fel Swyddog Recriwtio Maethu, byddwch yn rhan o dîm ymroddedig a phrofiadol sy'n angerddol am wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yn eich gofal. Byddwch yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth am faethu a chynyddu'r nifer o ofalwyr maeth yn Sir y Fflint, gan sicrhau bod plant yn aros yn lleol, ble mae'n iawn iddyn nhw, yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd oddi wrth bopeth sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Byddwch yn dod i adnabod ac yn gweithio'n agos gyda'n teuluoedd maethu anhygoel, gan rannu straeon gwirioneddol am eu profiadau i daro tant gyda gofalwyr maeth posibl. Drwy fod yn berson pobl gwirioneddol, byddwch yn gyfforddus yn ymgysylltu â'r cyhoedd a gyda'r gallu i wrando, sicrhau a datblygu perthnasoedd y gellir ymddiried ynddynt, annog pobl leol o bob cefndir i ystyried maethu gyda'u hawdurdod lleol. Bydd gennych batrwm gweithio'n hyblyg, boed hynny adref weithiau, yn y swyddfa neu allan yn cyfarfod pobl wyneb yn wyneb o fewn y gymuned a mynychu digwyddiadau lleol. Byddwch chi yr un â'r amser i siarad gyda phobl leol am faethu ac i ateb eu holl gwestiynau. Gallai eich cefnogaeth a gwybodaeth wneud gwahaniaeth mawr i bobl sy'n siarad eu hunain allan o faethu.

Mae sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ddymunol.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym ni'n cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau blyneddol (pro rata), gan gynnwys gwyliau banc, sy'n cynyddu i 41 diwrnod (pro rata) • Cyfle i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith • Gweithio'n hybrid (swyddi penodol) • Cyfle am amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth i weithwyr yn rhad ac am ddim • Cynllun beicio i'r gwaith • Gostyngiadau gan lawer o siopau yn y DU.

Yn y swydd hon gallwch elwa o'n polisi oriau gweithio'n hyblyg.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:

Charlie Roberts, Rheolwr Tîm Dros Dro, E-bost: Charlie.Roberts@flintshire.gov.uk



Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu
i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to
keep **Flintshire** safe

